

**CAIS AM ARWYDDION RHYBUDDIO - MARCHOGAETH CEFFYLAU  
I'W GWBLHAU GAN YR YMGEISYDD**

1. Caniateir y cais os yw'r llwybr agored i geffylau/cilffordd/lôn werdd yn croesi'r briffordd, gan gynnwys croesfan groesgam sy'n ei gwneud yn ofynnol i farchogwyr ceffylau ddefnyddio rhan o'r briffordd sy'n cysylltu'r uchod. Rhoddir ystyriaeth hefyd i bwyntiau mynediad marchogaeth eraill ar y briffordd, hynny yw, cyfleuster lleol lle gall marchogion gyfarfod ac ymgynnull.
2. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd nodi'n fanwl lleoliad a hyd y llwybr a ddefnyddir fel rheol.
3. Rhoddir ystyriaeth i ystadegau'r Heddlu o ran hanes damweiniau a digwyddiadau yn ymwneud â cherbydau, cerddwyr a cheffylau. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod yn cysylltu â Chymdeithas Geffylau Prydain ar ran yr ymgeisydd i gael eu barn am y lleoliad dan sylw.
4. Meini prawf gwelededd – os yw nifer y traffig yn fwy na 3000 y dydd, rhoddir ystyriaeth i arwyddion yn ôl eu teilyngdod ac ni fydd angen bodloni meini prawf gwelededd. Os yw nifer y traffig yn gostwng o dan y ffigur hwn, ni fydd yr arwydd yn cael ei ystyried oni bai fod y gwelededd wrth nesáu yn llai na
  - cyflymder 85 canradd hyd at 40 mya – 80 m
  - cyflymder 85 canradd rhwng 40 – 50 mya – 120 m
  - cyflymder 85 canradd rhwng 50 – 60 mya – 160 m
  - cyflymder 85 canradd dros 60 mya – 210 m

Enw a Chyfeiriad :

.....  
.....  
.....

- Nifer y ceffylau a gedwir yn y stablau
- Nifer y rhai sy'n marchogaeth ceffylau'n rheolaidd
- Llwybrau a ddefnyddir fel rheol (ynghyd â chynllun)
- Mannau croesi, rhestrwch ynghyd â nifer y ceffylau sy'n croesi ar gyfartaledd a'u dangos ar y cynllun

**Dylid anfon y Cais hwn yn awr at:-**

**Cyngor Sir Caerfyrddin,  
Adran y Gwasanaethau Technegol,  
Yr Adain Rheoli Traffig,  
Parc Myrddin  
Waun Dew  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 1 HQ**



